

# Sut i Lwytho yr ap Velindre Keep Me Safe i Lawr oddi ar Ddyfais Symudol

## Sut i lwytho'r ap Velindre Keep Me Safe i lawr.

Defnyddiwch yr App Store ar eich iPhone i lwytho'r ap hwn i lawr.
Agorwch eich ffôn, a chliciwch ar yr eicon.





Os na allwch chi ddod o hyd i'r eicon, gallwch sweipio i lawr o dop eich ffôn, a bydd bar chwilio yn ymddangos. Gallwch ddefnyddio hwn i chwilio am eitemau fel apiau a dogfennau ar eich iPhone. Teipiwch 'App Store' yn y bar chwilio, a dylai'r eicon ymddangos.




Yna, byddwch yn gweld y dudalen gartref. Mae bar dewislen ar waelod y dudalen.




Cliciwch ar yr eicon Apps ac yna, rhowch "Velindre Keep Me Safe" yn y bar chwilio.









Unwaith y bydd yr ap Velindre Keep Me Safe yn ymddangos yn y bar chwilio, cliciwch ar y botwm 'Get'.
**Mae'n bwysig cofio llwytho fersiwn FELINDRE o'r ap Velindre Keep Me Safe i lawr.**

Pan fydd yr ap wedi llwytho i lawr yn llawn, bydd yn ymddangos ar sgrîn gartref eich iPhone.




Cliciwch ar yr ap, a bydd sgrîn yn ymddangos, yn gofyn i chi roi eich Côd Mynediad i gleifion. Ni allwch fynd heibio’r sgrîn hon nes eich bod chi wedi nodi eich côd unigryw. **SYLWCH:** Ni ddylech nodi’r côd unigryw a ddefnyddir isod ar eich ap, dim ond enghraifft yw hon.




Unwaith y bydd y côd mynediad i gleifion yn cael ei nodi, a'ch bod chi wedi clicio ar 'start', byddwch wedyn yn gweld telerau defnyddio'r ap.


Cymerwch eich amser i ddarllen y rhain yn ofalus. Os ydych chi'n hapus gyda'r telerau defnyddio, gallwch glicio ar 'accept' ar y gwaelod.



Yna, bydd y brif dudalen ar gyfer yr ap Velindre Keep Me Safe yn ymddangos. Bydd y rhestr wirio yn cael ei gosod i'r **'default checklist'.**

**Nid yw'r rhestr wirio hon yn cael ei monitro gan y Tîm VAP.**




Byddwch yn cael mynediad i'r Rhestr Wirio SACT/Cemotherapi y mae'r Tîm VAP yn ei monitro ar adegau penodol o'r wythnos. Byddwch yn derbyn y rhestr wirio hon dau ddiwrnod cyn eich bod chi i fod i gael eich triniaeth nesaf.

Pan fyddwch yn cael mynediad, byddwch yn derbyn hysbysiad ar eich ffôn. Pan fyddwch yn mynd i mewn i'r ap, bydd y rhestr wirio yn dweud '**Complete your SACT/Chemo Checklis**t'.

Dim ond UNWAITH yn unig y dylech gwblhau'r rhestr wirio hon.

**Os nad ydych chi'n dymuno defnyddio'r ap Cadw Fi'n Ddiogel bellach, bydd angen i chi gysylltu â Thîm y VAP. Ni fydd dileu'r ap o'ch dyfais symudol yn rhoi gwybod yn awtomatig i Dîm y VAP. Cyfeiriwch at Canllaw 'Sut i'': 003 Sut i Dynnu'r ap KMS o Ddyfais Symudol**